| Fframwaith cymhwysedd ar gyfer Arfarnwyr meddygol | | |
|---|---|---|
| **1** | **Cyfrifoldeb proffesiynol:** sicrhau hygrededd fel Arfarnwr meddygol | |
| | **Cymhwysedd** | **Ymddygiad** |
| 1.1 | Cynnal safonau uchel o gyfrifoldeb proffesiynol, gonestrwydd personol, effeithiolrwydd a hunan ymwybyddiaeth | Cynnal hygrededd proffesiynol uchel<br>Gweithredu fel hyrwyddwr a model rôl ar gyfer arfarnu ac ailddilysu<br>Dangos dealltwriaeth a hunanymwybyddiaeth<br>Datgan gwrthdaro rhwng buddiannau |
| 1.2 | Datblygu cymhwysedd proffesiynol fel Arfarnwr meddygol | Ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus priodol sy'n adlewyrchu anghenion datblygu yn eu cynllun datblygiad personol<br>Myfyrio ar berfformiad a graddnodi ymarfer gydag Arfarnwyr eraill, gan wneud newidiadau i gynnal cysondeb safonau<br>Myfyrio ar adborth a gwneud newidiadau priodol mewn ymddygiad<br>Cefnogi ymdrechion i werthuso a gwella systemau a phrosesau lleol |

| Fframwaith cymhwysedd ar gyfer Arfarnwyr meddygol | | |
|---|---|---|
| **2** | **Gwybodaeth a dealltwriaeth:** deall rôl a phwrpas yr Arfarnwr meddygol er mwyn gallu cynnal arfarniadau effeithiol | |
| | **Cymhwysedd** | **Ymddygiad** |
| 2.1 | Deall dibenion arfarnu ac ailddilysu a deall rôl a chyfrifoldebau’r ymarferydd Arfarnwr meddygol | Dangos dealltwriaeth o bwrpas arfarnu ac ailddilysu<br>Gweithio o fewn terfynau rôl a chyfrifoldebau’r Arfarnwr meddygol, gan osod ffiniau priodol a throi at yr arweinydd arfarnu clinigol neu’r swyddog cyfrifol am gyngor ac arweiniad fel y bo’n briodol |

| | | |
|---|---|---|
| 2.2 | Deall systemau ansawdd a diogelwch a chysylltu hyn â chyd-destun gwaith y meddyg | Cymhwyso gwybodaeth am systemau ansawdd a diogelwch i arfarniadau<br><br>Addasu'r dull i gyd-destun gwaith y meddyg |
| 2.3 | Deall deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol gan gynnwys cydraddoldeb ac amrywiaeth, bwlio ac aflonyddu, rheoli gwybodaeth, diogelu data a chyfrinachedd | Cynnal gwybodaeth am bolisïau a fframweithiau deddfwriaethol perthnasol a chymhwyso'r egwyddorion yn ymarferol<br><br>Dangos tegwch a chydraddoldeb a chaniatáu ar gyfer amrywiaeth<br><br>Delio â data cyfrinachol yn unol â pholisïau a chanllawiau rheoli gwybodaeth bob amser |
| 2.4 | Deall egwyddorion addysgol yn ddigonol fel sail i'r drafodaeth arfarnu a chynllunio amcanion datblygiad personol | Dangos agwedd sy'n canolbwyntio ar y dysgwr tuag at ddatblygiad proffesiynol y meddyg<br><br>Hwyluso adolygiad o ymarfer y meddyg<br><br>Hyrwyddo gwelliannau ansawdd mewn gofal cleifion drwy ddatblygiad proffesiynol y meddyg<br><br>Cefnogi'r gwaith o ddylunio amcanion CDP sy'n benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, yn berthnasol ac wedi'u diffinio gan amser (SMART)<br><br>Cefnogi rôl datblygiad proffesiynol mewn gwella ansawdd |

| | | |
|---|---|---|
| 2 | **Gwybodaeth a dealltwriaeth:** deall rôl a phwrpas yr Arfarnwr meddygol er mwyn gallu cynnal arfarniadau effeithiol | |
| | **Cymhwysedd** | **Ymddygiad** |
| 2.5 | Deall y *Fframwaith Ymarfer Meddygol Da ar gyfer Arfarnu ac Ailddilysu* a gofynion y GMC o ran gwybodaeth ategol, gan gynnwys canllawiau perthnasol sy'n benodol i arbenigedd | Cynnal pob arfarniad yn unol â *Fframwaith Ymarfer Meddygol Da ar gyfer*<br><br>*Arfarnu ac Ailddilysu* a hyrwyddo gofynion gwybodaeth ategol y GMC, gan gynnwys canllawiau perthnasol sy'n benodol i arbenigedd |
| **3** | **Barn broffesiynol:** dadansoddi a chyfuno gwybodaeth a gyflwynir mewn arfarniadau a barnu ymgysylltiad a chynnydd tuag at ailddilysu | |

| | | |
|---|---|---|
| 3.1 | Gwerthuso'r portffolio o wybodaeth ategol yn effeithiol ac yn gyson | Cymhwyso egwyddorion a gofynion y GMC a chanllawiau sy'n benodol i arbenigedd yn briodol<br><br>Cefnogi'r meddyg i ddatblygu portffolio sy'n cwmpasu'r ystod lawn o wybodaeth ategol a chwmpas llawn y gwaith sy'n briodol i gam y cylch ailddilysu<br><br>Gwneud datganiad(au) cymeradwyo priodol i'r swyddog cyfrifol, gan dynnu sylw at y rhesymau dros y datganiad(au) pan fo angen<br><br>Adolygu safonau gwerthuso gydag Arfarnwyr eraill ac addasu ymddygiad i wella cysondeb |
| 3.2 | Barnu'n gywir ac yn gyson a yw'r wybodaeth ategol yn dangos bod y meddyg ar y trywydd iawn i ailddilysu | Gwneud penderfyniadau cywir a chyson am swm ac ansawdd cronnus y wybodaeth ategol sy'n gysylltiedig â gwahanol gamau'r cylch ailddilysu |
| 3.3 | Gallu barnu a oes mater sy'n ymwneud â diogelwch cleifion neu bryder ynghylch ymddygiad, iechyd neu berfformiad sy'n dod i'r amlwg ar sail y deunydd a gyflwynir a'r drafodaeth arfarnu, a chymryd camau priodol | Ymateb yn briodol i faterion diogelwch cleifion ac arwyddion cynnar o bryderon ymddygiad, iechyd neu berfformiad sy'n dod i'r amlwg yn unol â pholisi a gweithdrefnau lleol<br><br>Dangos y gallu i atal y broses arfarnu lle bo angen a chymryd camau pellach |
| | | Cyfleu pryderon i'r meddyg a'r swyddog cyfrifol (neu'r dirprwy) yn brydlon |
| 3.4 | Gallu barnu a yw'r meddyg wedi ymgysylltu'n briodol â'r broses arfarnu a'r adolygiad o gwmpas llawn eu gwaith | Cyfleu barn gywir a chyson am ymgysylltiad y meddyg ag arfarniad meddygol blynyddol ar draws holl ystod y gwaith<br><br>Cyfleu pryderon am ymgysylltiad y meddyg i'r meddyg a'r swyddog cyfrifol (neu'r dirprwy) yn brydlon |

| | | |
|---|---|---|
| 3.5 | Gallu gwerthuso cyflawniad amcanion cynllun datblygiad personol y blynyddoedd blaenorol a chadarnhau bod y cynllun datblygiad personol newydd yn adlewyrchu blaenoriaethau datblygu’r meddyg | Adolygu amcanion blaenorol y cynllun datblygiad personol gyda’r meddyg, gan hyrwyddo myfyrio ar y gwersi a ddysgwyd a’r newidiadau a wnaed<br><br>Nodi canlyniad amcanion cynlluniau datblygu personol blaenorol yn glir<br><br>Hyrwyddo cynllun datblygiad personol newydd sy’n mynd i'r afael â blaenoriaethau datblygu'r meddyg sy'n deillio o'r arfarniad a'r bylchau yn y portffolio ail-ddilysu sy'n cronni |

| **4** | **Sgiliau cyfathrebu:** hwyluso trafodaethau arfarnu effeithiol, cynhyrchu allbynnau o ansawdd da a delio ag unrhyw faterion neu bryderon a allai godi | |
|---|---|---|
| | **Cymhwysedd** | **Ymddygiad** |
| 4.1 | Gallu rheoli’r drafodaeth arfarnu'n<br><br>effeithiol | Paratoi’n effeithiol ar gyfer y drafodaeth arfarnu<br><br>Gosod y cyd-destun yn glir ac yn cytuno ar y blaenoriaethau ar gyfer y drafodaeth arfarnu<br><br>Dangos y gallu i hwyluso trafodaeth arfarnu strwythuredig a phenodol, sy’n canolbwyntio ar safonau’r GMC a datblygiad proffesiynol y meddyg<br><br>Dangos prydlondeb priodol yn y drafodaeth arfarnu |
| 4.2 | Datblygu, cynnal a defnyddio sgiliau cyfathrebu da gan gynnwys lefelau priodol o gefnogaeth a her | Meithrin perthynas dda<br><br>Dangos sgiliau cyfathrebu da gan gynnwys gwrando gweithredol, cwestiynu a chrynhoi<br><br>Adolygu cyflawniadau, heriau a dyheadau<br><br>Rhoi adborth effeithiol a her adeiladol |
| 4.3 | Gallu rheoli arfarniad meddygol anodd | Deall y ffactorau a allai gyfrannu at arfarniad meddygol anodd<br><br>Dangos ystod o strategaethau wrth reoli arfarniad meddygol anodd |

| | | |
|---|---|---|
| 4.4 | Gallu cynhyrchu cofnodion ac allbynnau arfarnu ysgrifenedig o ansawdd uchel | Cwblhau dogfennau arfarnu i safon uchel |

| **5** | **Sgiliau trefnu:** sicrhau bod y system arfarnu yn y byd meddygol yn rhedeg yn esmwyth, gan gynnwys sicrhau ymatebion prydlon a sgiliau cyfrifiadurol digonol i fod yn Arfarnwr meddygol effeithiol | |
|---|---|---|
| | **Cymhwysedd** | **Ymddygiad** |
| 5.1 | Rheoli amser a llwyth gwaith yn effeithiol | Cwblhau'r llwyth gwaith a'r dogfennau arfarnu yn brydlon, gan sicrhau nad oes unrhyw arfarniadau wedi'u methu neu heb eu cwblhau oherwydd ffactorau sy'n ymwneud â'r Arfarnwr<br><br>Ymateb yn brydlon i feddygon, staff rheoli a gweinyddol a'r swyddog cyfrifol (neu ddirprwy) |
| 5.2 | Meddu ar sgiliau cyfrifiadurol digonol i gyflawni rôl Arfarnwr meddygol | Dangos sgiliau cyfrifiadurol digonol i gyflawni rôl Arfarnwr meddygol<br><br>Ymateb i gyfathrebu electronig yn brydlon<br><br>Dangos defnydd effeithiol o systemau cymorth cyfrifiadurol ar gyfer arfarnu ac ailddilysu fel sy'n ofynnol gan bolisi lleol |